Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Older People's Commissioner for Wales

Cynllun Cydraddoldeb Strategol:

Adroddiad Blynyddol 2023-24

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn llais ac yn eiriolwr annibynnol ar gyfer pobl hŷn ledled Cymru.

Mae'r Comisiynydd yn gweithredu i diogelu a hyrwyddo hawliau pobl hŷn, rhoi diwedd ar oedraniaeth a gwahaniaethu ar sail oedran, atal cam-drin pobl hŷn, a galluogi pawb i heneiddio'n dda.

Mae'r Comisiynydd yn gweithio i sicrhau Cymru lle mae pobl hŷn yn cael eu gwerthfawrogi, lle mae hawliau'n cael eu cynnal a lle nad oes neb yn cael ei adael ar ôl.

Sut i gysylltu â'r Comisiynydd:

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Adeiladau Cambrian
Sgwâr Mount Stuart
Caerdydd
CF10 5FL

Ffôn: 03442 640 670
E-bost: gofyn@comisiynyddph.cymru
Gwefan: www.comisiynyddph.cymru
X: @comisiwnphcymru

Fformatau Hygyrch

Os hoffech dderbyn y cyhoeddiad hwn mewn fformat arall ac/neu iaith arall, cysylltwch â ni. Mae pob un o'n cyhoeddiadau hefyd ar gael i'w lawrlwytho a'u harchebu mewn nifer o fformatau gwahanol oddi ar ein gwefan.

Cynnwys

Crynodeb o'r gofynion a phatrwm yr adroddiad	4
Rôl Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru	5
Amcanion Cydraddoldeb y Comisiynydd 2023-24	7
Gwaith y Comisiynydd ar sefydlu cydraddoldeb	10
Atodiad A: Proffiliau'r gweithlu ar 31/03/24	21

Crynodeb o'r gofynion a phatrwm yr adroddiad

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn awdurdod rhestredig dan Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 a rhaid iddi lynu at y ddyletswydd gyffredinol i hyrwyddo cydraddoldeb a amlinellir yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar y dyletswyddau penodol i Gymru ac Amcanion Cydraddoldeb Strategol y Comisiynydd ar gyfer 2020-24:

This report focuses on the specific Welsh Duties and the Commissioner's Strategic Equality Objectives for 2020-24:

- Mae Adran 3 yn egluro rôl y Comisiynydd
- Mae Adran 4 yn nodi Amcanion Cydraddoldeb y Comisiynydd ar gyfer 2020-24
- Mae Adran 5 yn amlinellu gwaith y Comisiynydd ar wreiddio cydraddoldeb, gan gynnwys cynnydd ar gyfer 2023-24 yn erbyn yr Amcanion Cydraddoldeb Strategol
- Atodiad A – Proffiliau'r gweithlu ar 31 Mawrth 2024

Gellir gweld copïau o Gynllun Cydraddoldeb Strategol y Comisiynydd ac adroddiadau blynyddol y gorffennol ar wefan y Comisiynydd.

Rôl Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Corfforaeth Undyn yw'r Comisiynydd a grëwyd dan Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006. Mae'n endid cyfreithiol annibynnol yn ei hawl ei hun ac yn awdurdod rhestredig i ddibenion Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011.

Mae Deddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006 yn amlinellu nifer o ddyletswyddau statudol i'r Comisiynydd.

1. Hyrwyddo ymwybyddiaeth o fuddiannau pobl hŷn yng Nghymru a'r angen i ddiogelu'r buddiannau hynny.

Defnyddia'r Comisiynydd ei statws i helpu gosod yr agenda ymysg pobl sy'n gwneud penderfyniadau ar bob lefel ynghylch materion sy'n effeithio ar bobl hŷn, gan hyrwyddo trafodaeth gyhoeddus drwy'r cyfryngau.

Rôl allweddol i'r Comisiynydd yw bod yn eiriolwr grymus dros bobl hŷn, gan arwain ac ymyrryd mewn ystod eang a chynyddol o ddadleuon a phrosesau penderfynu ledled Cymru.

2. Hyrwyddo darpariaeth cyfleon i bobl hŷn yng Nghymru, a sicrhau nad oes gwahaniaethu yn eu herbyn.

Hyrwydda'r Comisiynydd newidiadau i'r gyfraith, canllawiau ac arferion er mwyn dileu anghydraddoldeb. Cyflwyna ddelweddau realistig a chadarnhaol o bobl hŷn, gan gydnabod pobl hŷn yn eu holl amrywiaeth.

Unigolion yw pobl hŷn, ac er bod ganddynt rai pryderon cyffredin, nid yw hynny'n lleihau eu statws fel unigolion. Ni ddylai fod un farn gyffredin am bobl hŷn, a cheisia'r Comisiynydd adlewyrchu hyn yn ei gwaith.

Hyrwydda'r Comisiynydd ddealltwriaeth o natur gwahaniaethu yn erbyn pobl hŷn yn ei ffurfiau mwyaf amlwg a'i ffurfiau mwy cuddiedig – ond llawn mor niweidiol – ac mae o'r farn fod mynd i'r afael ag achosion o wahaniaethu mewn modd effeithiol yn gam allweddol er mwyn symud ymlaen ar draws pob maes polisi, nid iechyd a gofal cymdeithasol yn unig.

3. Annog yr arfer gorau wrth drin pobl hŷn yng Nghymru.

Ceisia'r Comisiynydd gyflawni hyn drwy sawl dull, gan gynnwys dod â phobl a thystiolaeth at ei gilydd a, lle bo angen, cyflawni gwaith ymchwil, er mwyn arddangos yr arfer gorau.

Yn bwysicaf oll, bydd yn pwyso dros ddarparu gwasanaethau rhagorol i bobl hŷn mewn modd eang a chyson. Bydd yn annog pobl i newid arferion sydd wedi hen ymsefydlu lle dangoswyd bod dulliau eraill yn gweithio'n well. Bydd yn annog darparwyr gwasanaethau i wynebu'r her o newid er mwyn gallu ateb anghenion pobl hŷn yn well, e.e. rhoi cefnogaeth gynnar i bobl hŷn er mwyn eu harbed rhag mynd yn fwy dibynnol yn ddiweddarach.

4. Parhau i adolygu digonoldeb ac effeithiolrwydd y gyfraith sy'n effeithio ar fuddiannau pobl hŷn yng Nghymru.

Adeilada'r Comisiynydd yr achos dros newid a chyflwyna'r achos hwn I Lywodraeth Cymru a'r Senedd. Sefydla beth yw'r problemau a'r cyfleon drwy ddod ag arbenigwyr cyfreithiol ac eraill at ei gilydd a manteisio ar brofiad a barn pobl hŷn.

Mae'r gyfraith yn rhan hollbwysig o sicrhau grym a gwarchodaeth i bobl hŷn ac o sicrhau unioni cam, ac eto mae'n aml yn gymhleth, yn ddryslyd, yn anodd manteisio arni ac angen ei diwygio. Mae'r Comisiynydd eisoes wedi chwarae rôl gryf wrth argymell newidiadau a fydd o fudd i bobl hŷn ac eraill.

Isod wele enghreifftiau o'r mathau o weithgaredd y mae'r Comisiynydd wedi ymwneud â nhw:

- Rhoi arweiniad ar y materion sy'n bwysig i bobl hŷn
- Codi proffil pobl hŷn o fewn Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
- Pwyso ar Lywodraeth Cymru
- Adolygu'r modd y bydd cyrff datganoledig yn cyflawni eu Gwaith
- Cyhoeddi canllawiau a safonau
- Cynorthwyo unigolion i wneud cwynion neu sylwadau
- Comisiynu ymchwil neu helpu eraill i wneud hynny
- Cyflawni, comisiynu neu gynorthwyo eraill gyda gweithgareddau addysgol
- Cynnal archwiliadau (ymchwiliadau)
- Cyhoeddi canllawiau anstatudol
- Siarad dros newid deddfwriaeth, canllawiau ac arferion
- Siarad yn gyhoeddus am fethiannau mewn gwasanaethau
- Hyrwyddo ymarfer da

Mae'n bwysig nodi nad yw'r Comisiynydd yn darparu gwasanaethau rheng flaen ac eithrio trwy gyngor a chymorth uniongyrchol a ddarperir i bobl hŷn trwy ein gwaith achosion.

Amcanion Cydraddoldeb ar gyfer 2020-24

Yn dilyn gohirio'r dyddiad cyhoeddi gofynnol gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (Cymru), cyhoeddodd y Comisiynydd Gynllun Cydraddoldeb Strategol ar 1 Hydref 2020 i ddisodli'r cynllun blaenorol a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2016.

Roedd ymgysylltu â phobl hŷn yng Nghymru wedi chwarae rhan hollbwysig yn y gwaith o lunio Amcanion Cydraddoldeb y Comisiynydd. Er mwyn sicrhau bod cydraddoldeb yn rhan annatod o'i holl weithgarwch, mae Amcanion Cydraddoldeb y Comisiynydd ar gyfer 2020-24 yn adlewyrchu gweledigaeth a gwerthoedd y sefydliad yn agos, ac yn cyd-fynd yn agos â'i Strategaeth.

Nododd y Comisiynydd yr amcanion canlynol ar gyfer 2020-24:

1. Hyrwyddo amrywiaeth o fewn gweithlu'r Comisiynydd a sicrhau cyfleoedd cyfartal i'm holl weithwyr

Camau Gweithredu:

- Cadw golwg ar ba mor effeithiol yw ei phrosesau recriwtio er mwyn annog amrywiaeth eang o ymgeiswyr.
- Cofnodi data cynhwysfawr ac ystyrlon am gydraddoldeb cyflogaeth.
- Hyrwyddo dealltwriaeth drylwyr o faterion amrywiaeth a chydraddoldeb ymysg fy ngweithlu drwyddo draw, gyda hyfforddiant arbenigol ar gyfer rolau penodol.
- Parhau i fonitro gwahaniaethau rhwng y rhywiau o ran cyflogau o fewn gweithlu'r Comisiynydd.

2. Sicrhau bod cydraddoldeb yn llywio prosesau mewnol, gan gynnwys wrth wneud penderfyniadau strategol

Camau Gweithredu:

- Gwerthuso ei harferion caffael i sicrhau eu bod yn hyrwyddo cydraddoldeb a sicrhau ei bod yn parhau i fodloni gofynion cydraddoldeb cyfreithiol ar yr un pryd.
- Adolygu a chryfhau rôl ei phroses Asesu Effaith ar Gydraddoldeb fel sail ar gyfer gwneud penderfyniadau.
- Gwerthuso pa mor effeithiol yw ei phrosesau Asesu Effaith ar Gydraddoldeb.

3. Sicrhau bod amrywiaeth pobl hŷn yn cael ei adlewyrchu trwy waith y Comisiynydd drwyddo draw er mwyn gwneud Cymru y lle gorau yn y byd i heneiddio ynddo

Camau Gweithredu:

- Gweithio i sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn lleihau'r anghydraddoldebau y mae pobl hŷn yn cael profiad ohonynt
- Gweithio i sicrhau bod pobl hŷn yn cael eu grymuso i wybod beth yw eu hawliau a'u bod yn gallu herio gwahaniaethu yn ei holl ffurfiau.
- Gweithio i sicrhau bod pobl yn deall yr effaith y mae oedraniaeth yn ei chael ar bobl hŷn ac ar gymdeithas.
- Gweithio i sicrhau bod cymunedau yn diwallu anghenion amrywiaeth eang o bobl hŷn.
- Gweithio i sicrhau bod y cymorth y mae pobl sy'n dioddef camdriniaeth yn ei gael yn adlewyrchu anghenion pobl hŷn o bob cefndir.
- Gweithio i sicrhau bod gofal iechyd a chymdeithasol yn diwallu anghenion amrywiaeth eang o bobl hŷn.
- Craffu ar gyrff cyhoeddus a dal y rheini sy'n gyfrifol am achosion o wahaniaethu ar sail oedran yn atebol.
- Gweithio gyda'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol i wneud cynnydd o ran hawliau pobl hŷn ar lefel genedlaethol a rhyngwladol.
- Gweithio gyda Chomisiynydd Plant Cymru i hyrwyddo cyd-gefnogaeth rhwng cenedlaethau.

4. Rhoi cymorth a chefnogaeth i amrywiaeth eang o bobl hŷn i sicrhau bod eu hawliau'n cael eu hamddiffyn ac nad oes neb yn gwahaniaethu yn eu herbyn

Camau Gweithredu:

- Cofnodi data cydraddoldeb a geir yn sgil ymholwyr sy'n cysylltu â fy Nhîm Gwaith Achoser mwyn cynyddu amrywiaeth.
- Gwerthuso proffil amrywiaeth pobl hŷn sydd mewn cysylltiad â fy Nhîm Gwaith Achos.
- Cynyddu ymwybyddiaeth o'r Tîm Gwaith Achos ymhlith pobl hŷn sydd â nodweddion gwarchodedig.
- Sicrhau y gall pobl hŷn o bob cefndir gael gafael ar fy Nhîm Gwaith Achos.

5. Sicrhau bod gwaith y Comisiynydd yn seiliedig ar brofiadau amrywiaeth eang o bobl hŷn a'i fod yn berthnasol i bawb

Camau Gweithredu:

- Ymgysylltu â'r boblogaeth pobl hŷn yn ei holl amrywiaeth er mwyn dysgu a deall, rhoi gwybodaeth a grymuso.
- Archwilio'n rheolaidd a gwell pa mor hawdd yw ei gwefan i'w defnyddio.
- Sicrhau bod pawb yn gallu deall ei chyfathrebiadau a'u bod yn adlewyrchu amrywiaeth y gymuned pobl hŷn.

Gwaith y Comisiynydd ar sefydlu cydraddoldeb

Fel corff sy'n derbyn arian cyhoeddus, mae gan y Comisiynydd a'i staff amrediad o swyddogaethau statudol a chyfrifoldebau gweinyddol eraill, gan gynnwys:

- Hyrwyddo buddiannau pobl hŷn, gan gynnwys herio arferion gwahaniaethol, annog arferion gorau ac adolygu'r gyfraith.
- Sicrhau bod pobl hŷn ledled Cymru'n gwybod am y swydd.
- Recriwtio, cyflogi, hyfforddi a rheoli staff.
- Caffael gwasanaethau, gan gynnwys tendro am nwyddau a gwasanaethau megis ymchwil.
- Gwobrwyo, cydnabod a thalu i'r staff.
- Rhoi cymorth i bobl hŷn sy'n dymuno gwneud cwyn neu gais i gyrff cyhoeddus neu ddarparwyr gwasanaethau eraill.

Amlinellir yr hyn a gyflawnwyd gan y Comisiynydd yn erbyn ei Hamcanion Cydraddoldeb am y Flwyddyn Ariannol 2023-24 isod:

Amcan 1: Hybu amrywiaeth ymhlith gweithlu'r Comisiynydd a sicrhau cyfleoedd cyfartal i'r holl gyflogeion.

Cam gweithredu: Parhau i adolygu effeithiolrwydd proses recriwtio'r Comisiynydd i annog ystod amrywiol o ymgeiswyr.

Bydd y Comisiynydd yn cynnal adolygiad o'i harferion recriwtio yn dilyn pob penodiad i ddeall yn well y rhwystrau posibl ac i sicrhau wrth recriwtio, bod arferion yn gynhwysol a hygyrch i ystod eang o ymgeiswyr gyda sbectrwm ehangach o nodweddion gwarchodedig.

Ar 31 Mawrth 2024, mae'r Comisiynydd yn cyflogi cyfanswm o 18 aelod o staff ac nid oes neb yn dynodi eu hunain fel Du, Asiaidd na Lleiafrif Ethnig.

Mae'r Comisiynydd yn gweithredu Cynllun Gwarantu Cyfweliad (GIS) sy'n rhoi i unigolion o Gymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, ac unigolion sydd ag anabledd, yr hawl i fynd ymlaen i gam nesaf y broses ddethol os ydynt yn cyflawni'r meini prawf gofynnol yng ngham llunio'r rhestr fer.

Mae swyddi gwag yn cael eu hysbysebu drwy amrywiaeth o rwydweithiau i sicrhau bod eu cyrhaeddiad mor eang â phosibl yn ogystal â bod yr wybodaeth ar gael mewn ystod eang o fformatau, ar gais.

Mae'r Comisiynydd yn cydnabod, er gwaethaf cymryd camau i leihau rhwystrau ar gyfer ymgeiswyr Du, Asiaidd neu Leiafrifoedd Ethnig yn benodol, o'r chwech rôl a

hysbysebwyd yn allanol yn ystod 2023-24, dim ond dwy ymgeisydd wnaeth ddatgan eu bod o darddiad ethnig nad yw'n Wyn.

Mewn ymateb, bydd Cynllun Gweithredu Gwrth-Hiliaeth y Comisiynydd yn cyd-fynd â'r camau y manylir arnynt yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Bydd y camau a nodwyd yn y Cynllun Gweithredu Gwrth-Hiliaeth yn cynnwys camau i wella cyfraddau datgelu data Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yr ymgeiswyr, yn ogystal â nodi a mynd i'r afael ag unrhyw rwystrau o fewn y broses recriwtio. Er enghraifft, bydd y Comisiynydd yn:

- adolygu'r iaith a ddefnyddir o fewn dogfennau recriwtio i leihau rhagfarn ddiarwybod
- parhau i ymgysylltu â rhwydweithiau a grwpiau cymunedol amrywiol o ran diwylliant ac ethnigrwydd i gefnogi'r broses o hyrwyddo cyfleoedd gwaith
- defnyddio'r rhwydwaith Llwybr i'r Bwrdd, ynghyd â dulliau eraill, i hyrwyddo mor eang â phosib unrhyw gyfleoedd yn y dyfodol o fewn y Pwyllgor Archwilio a Risg. Mae'r rhaglen Llwybr i'r Bwrdd wedi'i hanelu'n benodol at bobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, a'u cefnogi i fod yn barod ar gyfer y Bwrdd.

Cam gweithredu: Cofnodi data cydraddoldeb cyflogaeth cynhwysfawr ac ystyrlon.

Mae gwybodaeth am nodweddion gwarchodedig yr holl ymgeiswyr yn cael ei chasglu a'i monitro i sicrhau cyfleoedd cyfartal. Hefyd, mae'r Comisiynydd yn parhau i gasglu, monitro a chyhoeddi data cydraddoldeb ar broffil ei gweithlu. Mae'r data hyn ar gael yn Atodiad A.

Yn 2023-24, o'r 60 posib, derbyniwyd 27 o ffurflenni monitro amrywiaeth ochr yn ochr â ffurflenni cais. Fel y soniwyd uchod, bydd y Comisiynydd yn cymryd camau i wella cyfraddau datgelu data Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yr ymgeiswyr. Yn ei dro, bydd y sylfaen dystiolaeth gryfach hon yn helpu i nodi rhwystrau posib y mae pobl â nodweddion gwarchodedig yn eu hwynebu yn ystod camau gwahanol o'r broses recriwtio.

Cam gweithredu: Hybu lefel uchel o ddealltwriaeth am faterion cydraddoldeb ac amrywiaeth ym mhob rhan o weithlu'r Comisiynydd, gyda hyfforddiant arbenigol ar gyfer rolau penodol.

Mae'r Comisiynydd wedi ymrwymo i sicrhau bod gan staff lefel briodol o wybodaeth am gydraddoldeb ac amrywiaeth, a sut y gall gweithleoedd ac aelodau staff unigol chwarae eu rhan i ganfod a rhoi sylw i broblemau. Yn ychwanegol at hyn, mae'n bwysig bod staff hefyd yn deall sut y mae cydraddoldeb ac amrywiaeth yn effeithio ar waith y Comisiynydd yn ei rôl i gynorthwyol pobl hŷn yng Nghymru.

Yn ystod 2021-22, trefnwyd rhaglen hyfforddi sylweddol i godi ymwybyddiaeth o faterion yn ymwneud â chydraddoldeb ac amrywiaeth, gyda hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth pellach yn cael ei gyflwyno yn ystod 2022-23.

Fel rhan o'r ymrwymiad i sicrhau'r adolygiad a mabwysiadu arferion da i hybu amgylchedd gweithio cynhwysol sy'n annog dysgu, datblygiad a llesiant cyffredinol, mae gan swyddfa'r Comisiynydd achrediad Gwobr Iechyd y Gweithle Bach (Aur). Mae'r Wobr yn gynllun cydnabyddiaeth cenedlaethol i fusnesau sy'n edrych ar ôl iechyd a llesiant eu cyflogeion ac sy'n dystiolaeth annibynnol o ymrwymiad y Comisiynydd i greu amgylchedd positif yn y gweithle i'r holl staff. I ennill y Wobr Aur rhaid i gyflogwyr ddangos tystiolaeth o ymrwymiad y sefydliad i gael diwylliant sy'n hybu ymddygiad positif ymhlith yr holl staff ac nad yw'n goddef ymddygiad amhriodol.

Yn ystod 2023-24, cyflwynwyd rhaglen o weithdai i gefnogi iechyd a lles corfforol a meddyliol gweithwyr.

Cam gweithredu: Parhau i fonitro gwahaniaethau cyflog rhwng y rhywiau ymhlith gweithlu'r Comisiynydd.

Mae'r Comisiynydd yn parhau i fonitro'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn ei gweithlu. Ar 31 Mawrth 2024, roedd y cyflog canolrifol ar gyfer dynion yn uwch nac ar gyfer menyword. Fodd bynnag, mae cyflog cymedrig menywod yn uwch gan fod yr Uwch Dîm Rheoli i gyd yn fenywod. Mae hyn yn golygu bod y bwlch cyflog rhwng y rhywiau ar gyfer 2023-24 yn -7.74%, ac am bob £100 y mae dynion yn ei ennill, mae menywod yn ennill £107.74

Mae'r data hwn ar gael hefyd yn Atodiad A ac yn cael ei gyhoeddi yn y cyfrifon blynyddol.

Amcan 2: Sicrhau bod cydraddoldeb yn llywio prosesau mewnol, gan gynnwys prosesau penderfynu strategol.

Cam gweithredu: Gwerthuso arferion caffael y Comisiynydd i sicrhau eu bod yn hybu cydraddoldeb ac yn parhau i gyflawni gofynion cydraddoldeb cyfreithiol.

Mae'r Comisiynydd yn cynnal adolygiad cyfnodol o'r holl bolisïau ac arferion caffael i adlewyrchu dyletswyddau statudol, arferion da a dysgu. Mae hyn yn sicrhau bod yr holl ddogfennau tendro'n cael eu hadolygu fel rhan o unrhyw werthusiad o dendrau. Mae pob contractwr sy'n cyflawni contractau am werth is yn ymwybodol o ddyletswyddau cydraddoldeb ac o ddisgwyliadau'r Comisiynydd pan fydd gwaith yn cael ei wneud ar ei rhan.

Cam gweithredu: Adolygu a chryfhau rôl proses Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb y Comisiynydd i lywio prosesau penderfynu // Gwerthuso effeithiolrwydd prosesau Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb y Comisiynydd.

Roedd y Comisiynydd wedi adolygu ei phroses Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb ac, o ystyried arferion da mewn mannau eraill, penderfynodd fod angen cyflwyno rhai newidiadau. Bydd templed newydd o ffurflen yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (gan gynnwys offeryn sgrinio) yn cael ei ddatblygu a'i gyflwyno erbyn mis Medi 2024 (ar ôl ymgysylltu â'r staff).

Amcan 3: Sicrhau bod amrywiaeth pobl hŷn yn cael ei adlewyrchu ym mhob agwedd ar waith y Comisiynydd i wneud Cymru'r lle gorau yn y byd i heneiddio.

Cam gweithredu: Gweithio i sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn lleihau anghydraddoldebau a brofir gan bobl hŷn.

Gwaith partneriaeth parhaus gydag aelodau'r grŵp hawliau pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal, sy'n dod â sefydliadau o Gymru a ledled y DU at ei gilydd, gyda'r nod o gryfhau hawliau pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal. Mae hyn wedi cynnwys gwaith sy'n canolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth o hawliau pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal, gwella diogelwch deiliadaeth pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal, gwella mynediad at ofal iechyd mewn cartrefi gofal a pharhau i ddarparu gwybodaeth i bobl hŷn a'u teuluoedd am hawliau.

Roedd y Comisiynydd hefyd yn canolbwyntio'n sylweddol ar fynd i'r afael ag anghydraddoldebau a brofir gan bobl hŷn a oedd wedi'u hallgáu'n ddigidol:

- Wedi gwahodd pobl hŷn i rannu eu profiadau o allgáu digidol a'r effaith y mae hyn yn ei chael ar eu bywydau drwy arolwg a rannwyd yn eang ledled Cymru, gan adeiladu ar fy ngwaith i sicrhau bod pobl hŷn yn gallu cael gafael ar wybodaeth a gwasanaethau drwy ddulliau nad ydynt yn ddigidol, neu eu bod yn cael eu cefnogi i fynd ar-lein neu i aros ar-lein.
- Wedi ddefnyddio'r profiadau a rannwyd gan dros 150 o bobl hŷn fel sail i'm hadroddiad Dim Mynediad, a ganfu fod mwy a mwy o bobl hŷn yng Nghymru mewn perygl o gael eu heithrio'n gymdeithasol a chael eu gadael ar ôl wrth i'r defnydd o dechnoleg ddigidol barhau i chwarae mwy fyth o ran yn ein bywydau bob dydd. Roedd yr adroddiad yn dangos bod llawer o bobl hŷn yn ei chael hi'n fwy a mwy anodd, os nad yn amhosib, cael gafael ar y wybodaeth a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt – gan gynnwys gwasanaethau hanfodol fel apwyntiadau iechyd – ac ar yr un pryd yn wynebu rhwystrau sylweddol sy'n gallu arwain at allgáu digidol neu ei atgyfnerthu, fel cynnal sgiliau digidol, costau a phryderon am ddiogelwch.

- Wedi galw ar gyrff cyhoeddus i sicrhau bod dyletswyddau o dan y Ddeddf Cydraddoldeb (a deddfwriaeth berthnasol arall) yn cael eu cyflawni, a darparu cymorth ymarferol i gael pobl ar-lein wrth barhau i ddarparu gwybodaeth a gwasanaethau drwy ddulliau nad ydynt yn ddigidol. Ar ben hynny, roeddwn yn galw am sicrhau bod allgáu digidol yn fater canolog mewn trafodaethau am ddylunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus, a bod lleisiau pobl hŷn sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol yn cael eu clywed a'u hateb yn fwy effeithiol. Roeddwn hefyd yn galw ar gwmnïau preifat i weithredu fel bod cwsmeriaid 'all-lein' yn cael yr un lefelau o wasanaeth, ac am fwy o gymorth i'r rheini a allai fod ei angen.

Cam gweithredu: Gweithio i sicrhau bod pob person hŷn yn cael eu grymuso i wybod beth yw eu hawliau a'u bod yn gallu herio gwahaniaethu yn ei holl ffurfiau.

Mae'r wybodaeth, y cyngor a'r canllawiau a ddarperir gan y Gwasanaeth Cyngor a Chymorth yn grymuso pobl hŷn a'u teuluoedd yn uniongyrchol ac mae'n eu helpu i ddeall ac i fynnu eu hawliau. Gan fod amgylchiadau pawb sy'n cysylltu â'r Comisiynydd yn wahanol, mae'r cymorth a'r gefnogaeth a ddarperir gan y tîm yn cael eu haddasu i adlewyrchu anghenion unigol pobl, ac mewn rhai achosion, yn enwedig y rhai mwyaf cymhleth, bydd yn ymyrryd ar ran person hŷn (ar ôl cael eu cydsyniad). Darperir cymorth i alluogi pobl hŷn a'u teuluoedd i herio prosesau penderfynu ac arferion gweithio cyrff cyhoeddus, i'w helpu i lywio drwy systemau,
polisïau a phrosesau cymhleth, a hynny'n aml o dan yr amgylchiadau mwyaf anodd a thrallodus.

Ym mis Ionawr 2024, mae'r Comisiynydd wedi datblygu nghanllaw gwybodaeth 'Barod i fynd' i hysbysu a grymuso pobl hŷn drwy ddarparu gwybodaeth am yr hyn y dylem ei ddisgwyl pan fyddwn yn barod i gael ein rhyddhau o'r ysbyty, a'n hawliau drwy gydol y broses ryddhau. Mae'r canllaw, a ddatblygwyd gyda chymorth gan bobl hŷn, yn rhoi atebion i gwestiynau cyffredin, yn egluro'r iaith / termau allweddol sy'n gysylltiedig â rhyddhau o'r ysbyty ac yn rhoi manylion cysylltiadau defnyddiol.

Ym mis Chwefror 2024, mae'r Comisiynydd lansio canolfan adnoddau newydd i helpu pobl hŷn a'u teuluoedd ddeall ein hawliau pan fydd penderfyniadau clinigol yn cael eu gwneud sy'n ymwneud â Pheidio â Cheisio CPR (DNACPR), er mwyn galluogi trafodaethau amserol, sensitif a gwybodus. Mae'r hyb yn darparu gwybodaeth allweddol ac yn cysylltu pobl ag amrywiaeth eang o adnoddau defnyddiol, gan gynnwys y ffurflen DNACPR ei hun, gwybodaeth allweddol a gynhyrchir gan sefydliadau eraill, a manylion gwasanaethau sy'n gallu cynnig cymorth os oes gan rywun bryderon am y broses DNACPR.

Cam gweithredu: Gweithio i sicrhau bod effaith rhagfarn ar sail oedran ar gymdeithas yn wybyddus.

Ym mis Hydref 2023, mae'r Comisiynydd wedi cyhoeddi papur briffi o sy'n archwilio'r rhwystrau y mae llawer o bobl hŷn yn eu hwynebu wrth geisio aros mewn gwaith neu gael gwaith.

Ym mis Ionawr 2024, mae'r Comisiynydd wedi darparu tystiolaeth ysgrifenedig a llafar i ymchwiliad Pwyllgor Menywod a Chydraddoldeb Senedd y DU i hawliau pobl hŷn, gan ddisgrifio'r rôl y mae oedraniaeth yn ei chwarae o ran tanseilio hawliau a pham mae mwy o ffocws ar ddiogelu hawliau pobl hŷn sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol yn hanfodol.

Wedi bwrw ymlaen â'r camau gweithredu a nodwyd yn ystod y digwyddiad bwrdd crwn yn canolbwyntio ar annog ymarferwyr i fyfyrio ar oedraniaeth a'i effeithiau posibl ar eu gwaith gyda phobl hŷn sy'n cael eu cam-drin. Mae hyn wedi cynnwys sefydlu is-grŵp gyda'r dasg o archwilio sut y gallai sefydliadau ddatblygu a defnyddio pecyn o adnoddau i gynyddu gwybodaeth a dealltwriaeth ymysg eu hymarferwyr.

Gweithio gyda swyddogion, mae'r Comisiynydd wedi nodi sut gallai Llywodraeth Cymru fod yn esiampl o ran arferion sy'n gadarnhaol o ran oedran, fel drwy ddarparu hyfforddiant i staff i'w helpu i adnabod ac osgoi oedraniaeth wrth wneud penderfyniadau a chyfathrebu. Mae hyn wedi cynnwys rhoi adborth ar ganllawiau newydd i staff allweddol ynghylch creu deunydd cyfathrebu cynhwysol, sy'n cyfeirio'n benodol at bobl hŷn a heneiddio.

Trwy gydol y flwyddyn, mae'r Comisiyndd wedi hyrwyddo a dosbarthu fy nghanllaw 'Sut i osgoi oedraniaeth wrth gyfathrebu' i gyrff cyhoeddus, partneriaid rhanddeiliaid a gweithwyr proffesiynol eraill sy'n gweithio gyda phobl hŷn ledled Cymru, sy'n cynnwys awgrymiadau ymarferol i helpu sefydliadau i osgoi iaith a delweddau oedraniaethol, yn ogystal ag enghreifftiau o arferion da.

Mae'r Comisiynydd wedi yynnu sylw at yr agweddau dideimlad, oedraniaethol tuag at bobl hŷn, yr adroddwyd amdanynt mewn cofnodion o drafodaethau ymysg uwch wleidyddion a swyddogion Llywodraeth y DU, a amlygwyd fel rhan o Ymchwiliad Covid-19 y DU.

Mae'r Comisiynydd wedi gweithio gyda Sefydliad Iechyd y Byd, a phartneriaid ledled y byd, i gefnogi datblygiad yr Ymgyrch Fyd-eang i Fynd i'r Afael ag Oedraniaeth, sy'n ceisio newid y ffordd rydym yn meddwl, yn teimlo ac yn gweithredu o ran oed a heneiddio.

Cam gweithredu: Gweithio i sicrhau bod cymunedau'n diwallu anghenion ystod eang o bobl hŷn.

Ym mis Tachwedd 2023, mae'r Comisiynydd wedi dod â thros 120 o bobl hŷn a rhanddeiliaid ynghyd, a thua 50 o gynrychiolwyr ar-lein o bob cwr o Gymru ar gyfer digwyddiad cynhadledd hybrid, Gwneud Cymru'n genedl oed-gyfeillgar: Dathlu cynnydd, adeiladu ar lwyddiant, i ysbrydoli gweithredu a phartneriaethau newydd i gefnogi'r gwaith o gyflawni hyd yn oed mwy o brosiectau a mentrau oed-gyfeillgar. Clywodd y cynadleddwyr gan bobl hŷn am yr arferion da maen nhw'n eu darparu'n lleol i gefnogi pobl i heneiddio'n dda yn ogystal â siaradwyr arbenigol, gan gynnwys y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol, Prif Weithredwr Iechyd Cyhoeddus Cymru, a Llefarydd CLILC ar Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, y Cynghorydd.

Mae'r Comisiynydd wedi defydlu Cymuned Ymarfer Oed-gyfeillgar (CoP) Cymru, sydd bellach â thros 50 o aelodau'n cynnwys pobl hŷn, grwpiau a sefydliadau sy'n cynrychioli pobl hŷn, Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a sefydliadau academaidd.

Darparu dros 30 o sesiynau un-i-un gydag awdurdodau lleol yng Nghymru i ddarparu cyngor, arbenigedd a chymorth ar ddatblygu cynlluniau a strategaethau lleol oed-gyfeillgar, yn ogystal â'u ceisiadau i ymuno â Rhwydwaith Byd-eang Sefydliad Iechyd y Byd o ddinasoedd a chymunedau oed-gyfeillgar, gan gydnabod ymrwymiad i wneud cymunedau'n fwy oed-gyfeillgar.

Wedi sefydlu gweithgor i gynllunio a datblygu ffyrdd o werthuso gwaith Ymgysylltu Oed-gyfeillgar yng Nghymru, gan ddod ag awdurdodau lleol, cydweithwyr academaidd a phobl hŷn at ei gilydd i gydgynhyrchu dulliau arolygu sy'n cael eu treialu gan 8 tîm lleol.

Cyflwyno canfyddiadau sy'n dod i'r amlwg o waith Ymgysylltu Oed-Gyfeillgar gyda phobl hŷn gan awdurdodau lleol a phartneriaid mewn digwyddiadau rhwydwaith rhanbarthol a chenedlaethol a gynhelir gan Lywodraeth Cymru i ysbrydoli a chefnogi gweithredu lleol.

Cam gweithredu: Gweithio i sicrhau bod y cymorth i bobl sy'n profi camdriniaeth yn adlewyrchu anghenion pobl hŷn yn eu holl amrywiaeth.

Drwy gydol 2023-24, parhaodd y Comisiynydd i weithio gydag aelodau o'i Grŵp Gweithredu ar Atal Cam-drin a Grwpiau Llywio i rannu a lledaenu gwybodaeth a negeseuon allweddol ledled Cymru, a sicrhau y cymerir camau i roi stop ar gam-drin pobl hŷn.

Mae'r Comisiynydd wedi cwrdd â phobl hŷn sydd wedi cael eu cam-drin i glywed ganddynt am y gwelliannau sydd eu hangen er mwyn i bobl allu cael gafael ar y cymorth a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt.

Mae'r Comisiynydd wedi cwrdd â staff a gwirfoddolwyr mewn gwasanaethau cymorth cam-drin domestig ledled Cymru i ddysgu mwy am yr arferion da sy'n cael eu darparu i estyn allan at bobl hŷn a'u cefnogi, y gellid eu darparu'n ehangach mewn rhannau eraill o Gymru.

Cam gweithredu: Gweithio i sicrhau bod iechyd a gofal cymdeithasol yn diwallu anghenion ystod eang o bobl hŷn.

Yn ystod 2023-24, casglodd y Comisiynydd wybodaeth gan 900 o bobl hŷn am eu profiadau o gael mynediad at wasanaethau meddygon teulu. Roedd pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig hŷn wedi rhannu eu profiadau yn sôn am ba mor anodd oedd cael gafael ar wasanaethau yn eu dewis iaith. Ym mis Mawrth 2024, cyhoeddodd y Comisiynydd adroddiad a oedd yn cynnwys cyfres o argymhellion yn nodi'r camau gweithredu sydd eu hangen i wella profiadau pobl hŷn.

Cam gweithredu: Craffu ar waith cyrff cyhoeddus a dwyn i gyfrif y rhai hynny sy'n gyfrifol am achosion o wahaniaethu ar sail oedran.

Mae'r Comisiynydd yn darparu cymorth uniongyrchol i bobl hŷn a'u cynrychiolwyr drwy ei Gwasanaeth Cyngor a Chymorth. Yn y cyfnod rhwng Ebrill 2023 a Mawrth 2024, roedd y Comisiynydd wedi darparu cymorth i 381 o bobl hŷn, naill ai'n uniongyrchol neu drwy aelodau o'u teulu a oedd wedi cysylltu â'r Comisiynydd ar eu rhan, i'w helpu i ddiogelu eu hawliau ac i herio achosion o wahaniaethu.

Cam gweithredu: Gweithio â Chomisiynydd Plant Cymru i hybu undod rhwng cenedlaethau

Ym mis Ebrill 2023, mae'r Comisiynydd wedi ymuno â Chomisiynydd Plant Cymru a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru i dynnu sylw at bwysigrwydd undod rhwng cenedlaethau a'r manteision y gallai hyn eu cynnig i gymdeithas.

Amcan 4: Darparu help a chefnogaeth i ystod amrywiol o bobl hŷn i sicrhau bod eu hawliau'n cael eu diogelu ac nad ydynt yn dioddef gwahaniaethu.

Cam gweithredu: Cofnodi data cydraddoldeb gan ymholwyr â'r Gwasanaeth Cyngor a Chymorth i gynyddu amrywiaeth.

Parhaodd Gwasanaeth Cyngor a Chymorth y Comisiynydd i dderbyn data cydraddoldeb wrth ymholwyr i'w Gwasanaeth Cyngor a Chymorth drwy ffurflenni adborth. Rhoddir ffurflenni i bob ymholwr ac mae'r ymatebion yn ddienw.

Er bod cwblhau data cydraddoldeb ac amrywiaeth yn ddewisol o hyd, mae gwaith wedi'i wneud i gynyddu cyfradd cwblhau ffurflenni adborth. Mae hyn yn cynnwys

darparu ffurflenni adborth mewn amrywiaeth o fformatau a sicrhau bod ymholwyr yn ymwybodol o'r rhesymau dros gasglu data cydraddoldeb a sut byddwn yn defnyddio gwybodaeth o'r fath.

Cam gweithredu: Gwerthuso proffil amrywiaeth pobl hŷn sydd mewn cysylltiad â'r Gwasanaeth Cyngor a Chymorth.

Rhwng Ebrill 2023 a Mawrth 2024, datgelodd ymholwyr a gysylltodd â'r Gwasanaeth Cyngor a Chymorth ac a roddodd ddata cydraddoldeb fod:

- Roedd 67% yn fenywod
- Roedd 92% o ymholwyr yn Wyn, gyda 2% yn nodi eu bod yn Asiaidd a 2% yn nodi fel arall
- Bu gostyngiad bychan yn nifer yr ymholwyr sy'n datgan eu bod yn ystyried bod ganddynt anabledd, i lawr o 57% i 50%;
- Dywedodd 46% o ymholwyr fod eu hunaniaeth grefyddol yn Gristnogol, dywedodd 35% nad oedd unrhyw gred neu grefydd, nododd 4% unrhyw gred grefyddol neu grefydd arall, gydag 2% yn nodi eu bod yn Fwslimiaid
- Roedd 6% o ffurflenni adborth a gwblhawyd yn Gymraeg

Mae'r Gwasanaeth Cyngor a Chymorth yn adolygu sut maent yn casglu data demograffig gan ymholwyr.

Cam gweithredu: Codi ymwybyddiaeth o'r Gwasanaeth Cyngor a Chymorth ymhlith pobl hŷn â nodweddion gwarchodedig.

Mae'r Comisiynydd wedi ceisio codi ymwybyddiaeth o'i Gwasanaeth Cyngor a Chymorth drwy ddiweddaru'r wybodaeth sydd ar gael i hyrwyddo'r Gwasanaeth. Mae hyn wedi cynnwys diweddaru adran ar wefan y Comisiynydd i gynghori pobl o'u hawliau a'r ffordd y gall y Gwasanaeth Cyngor a Chymorth eu helpu. Mae taflen hyrwyddo newydd a deunyddiau hyrwyddo wedi'u cynhyrchu, sydd wedi'u dosbarthu drwy waith ymgysylltu parhaus y Comisiynydd.

Yn dilyn adolygiad mewnol o'r Gwasanaeth, mae cynllun gweithredu pwrpasol yn cael ei gynhyrchu i sicrhau bod y wybodaeth am y Gwasanaeth Cyngor a Chymorth yn cael ei dosbarthu i bobl hŷn sydd â nodweddion gwarchodedig ac i sicrhau bod ymgysylltu wedi'i dargedu yn cael ei gyflawni.

Cam gweithredu: Sicrhau bod y Gwasanaeth Cyngor a Chymorth yn hygyrch i bob person hŷn.

Yn dilyn adolygiad mewnol o'r Gwasanaeth Cyngor a Chymorth, mae gwaith yn mynd rhagddo i godi ymwybyddiaeth o'r gwasanaeth ymhlith pobl hŷn sydd â nodweddion

gwarchodedig a hygyrchedd y gwasanaeth. Darperir gwybodaeth am y gwasanaeth mewn gwahanol fformatau ac ieithoedd.

Amcan 5: Sicrhau bod gwaith y Comisiynydd yn cael ei ategu gan brofiadau ystod amrywiol o bobl hŷn a'i fod yn gwbl hygyrch.

Cam gweithredu: Ymgysylltu â holl amrywiaeth y boblogaeth hŷn i ddysgu a deall, hysbysu a grymuso.

Drwy gydol 2023-24, roedd ymgysylltu rheolaidd â phobl hŷn ledled Cymru yn dal yn ffocws allweddol i'r Comisiynydd a'm tîm er mwyn clywed yn uniongyrchol am brofiadau pobl o fynd yn hŷn.

Roedd hyn yn golygu, teithio ledled Cymru i gwrdd a siarad â phobl hŷn, mewn grwpiau fel fforymau pobl hŷn, grwpiau Men's Sheds a Sefydliad y Merched a grwpiau cymdeithasol eraill, yn ogystal â grwpiau sy'n cynnig cymorth penodol i bobl hŷn, fel grwpiau sy'n cefnogi pobl sy'n byw gyda dementia.

Fe barhauodd y Comisiynydd i gwrdd yn rheolaidd â Chadeiryddion grwpiau pobl hŷn allweddol – Cymru Egnïol, Cynghrair Pobl Hŷn Cymru, a Fforwm Pobl Hŷn Cymru y Confensiwn Pensiynwyr Cenedlaethol – i glywed ganddynt am brofiadau eu haelodau a rhannu gwybodaeth a diweddariadau allweddol.

Mae'r Comisiynydd wedi cwrdd â'r unigolion a'r grwpiau a gefnogodd fy ngwaith i archwilio profiadau bywyd pobl hŷn Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig er mwyn rhannu fy nghanfyddiadau ac, yn bwysig, dangos sut roedd y dystiolaeth a rannwyd yn hysbysu fy ngwaith fel Comisiynydd ac yn siapio prosiectau allweddol.

Cam gweithredu: Archwilio'n rheolaidd a gwella'n barhaus hygyrchedd gwefan y Comisiynydd.

Yn dilyn cyfres o sesiynau ymgysylltu gyda phobl hŷn a rhanddeiliaid, lluniwyd gwefan ddiwygiedig y Comisiynydd, a aeth yn fyw ym mis Mawrth 2022, i fodloni safon hygyrchedd genedlaethol WCAG 2.1 AA ac mae'n galluogi'r Comisiynydd i gydymffurfio â Rheoliadau Hygyrchedd Cyrff Sector Cyhoeddus (Gwefannau ac Apiau Symudol) (Rhif 2) 2018.

Roedd yr archwiliad hygyrchedd diweddaraf, a gynhaliwyd ym mis Ionawr 2024, wedi codi nifer fach o fân ddiweddariadau angenrheidiol ac mae'r rhain wedi'u nodi yn y datganiad hygyrchedd ar wefan y Comisiynydd. Cwblhawyd camau gweithredu drwy gydol 2024 i gyflwyno'r diweddariadau hyn a gwella hygyrchedd gwefan y Comisiynydd ymhellach, gan gynnwys galluogi hygyrchedd pob PDF a gyhoeddwyd ar ôl 2017, diweddaru lliwiau i safon AAA, yn ogystal â newidiadau eraill i wneud y wefan yn fwy hygyrch i unigolion sydd wedi colli eu golwg.

Byddwn yn cyflwyno rhagor o ddiweddariadau drwy gydol gweddill 2024, cyn yr archwiliad nesaf ym mis Ionawr 2025. Mae hyn yn adlewyrchu ein hymrwymiad parhaus i sicrhau bod pawb yn gallu cael mynediad at wefan y Comisiynydd.

Cam gweithredu: Sicrhau bod cyfathrebiadau'r Comisiynydd yn hygyrch i bawb ac yn adlewyrchu amrywiaeth pobl hŷn.

Mae Canllaw Arddull Gyfathrebu'r Comisiynydd yn rhoi canllawiau ar sut i gyfathrebu ag ystod eang o gynulleidfaoedd mewn ffordd glir a chryno, drwy ddefnyddio iaith glir a delweddau addas.

Mae cyhoeddiadau sy'n cael eu cynhyrchu'n benodol ar gyfer pobl hŷn ar gael yn y fformatau canlynol:

- Digidol
- Copi caled
- Hawdd ei ddeall
- BSL
- Fersiynau Sain

Mae fersiynau print bras a braille o ddogfennau hefyd ar gael ar gais.

Bydd y Comisiynydd hefyd yn parhau i ymgysylltu â phobl hŷn i ofyn am adborth ar gyhoeddiadau drafft, gan gynnwys adborth am hygyrchedd.

Atodiad A: Proffiliau'r gweithlu ar 31/03/24

Gwybodaeth cyfrif pennau

1. **Rhaid i gorff rhestredig yng Nghymru gasglu a chyhoeddi'n flynyddol nifer y bobl a gyflogir gan yr awdurdod ar 31 Mawrth bob blwyddyn fesul nodwedd warchodedig.**

    - Oed
    - Trawsrywedd
    - Rhyw
    - Anabledd
    - Beichiogrwydd a mamolaeth
    - Cyfeiriadedd rhywiol
    - Hil – yn cynnwys tarddiad ethnig neu genedlaethol, lliw neu genedl
    - Crefydd neu gred – yn cynnwys diffyg cred

Bydd y Comisiynydd yn ymgymryd ag arolwg staff blynyddol i gasglu data cydraddoldeb rheolaidd. Mae'r arolwg hwn yn gyfrinachol ac mae'r ymatebion yn ddienw. Am y flwyddyn 2023/24, cafodd y Comisiynydd 19 ymateb allan o 19 posib. Ond oherwydd maint y sefydliad, lle bo'r ffigurau'n cyfrif am lai na 10%, tynnwyd y manylion allan er mwyn sicrhau na ellir adnabod unigolion.

Nifer y bobl a gyflogir fesul Nodwedd Warchodedig:

Oed	
16-24	-
25-34	2
35-44	8
45-54	7
55-64	2
65 a throsodd	-
Dewis Peidio Dweud	-

Rhyw	
Gwryw	4
Benyw	15
Dewis Peidio Dweud	-

Ai'r rhyw a briodolwyd ichi pan gawsoch eich geni yw'r rhyw yr ydych yn ei arddel nawr?	
Ie	19
Na	-
Dewis Peidio Dweud	-

Cyfeiriadedd rhywiol	
Deurywiol	-
Dyn Hoyw	-
Menyw Hoyw / Lesbiad	-
Heterorywiol / Strêt	17
Anrhywiol	-
Arall	-
Dewis Peidio Dweud	-

Statws Perthynas	
Wedi priodi	11
Wedi ysgaru	-
Mewn partneriaeth sifil	-
Sengl	2
Yn cyd-fyw	2
Wedi gwahanu	-
Yn weddw	-
Mae'n well gen i beidio â dweud	-

Crefydd neu Gred	
Dim crefydd na chred	9
Cristion (pob enwad)	9
Bwdydd	-
Hindw	-
Iddew	-
Mwslim	-
Sikh	-
Unrhyw grefydd neu gred arall	-
Dewis peidio dweud	-

Hunaniaeth Genedlaethol	
Cymreig	17
Albanaidd	-
Seisnig	-
Gogledd Iwerddon	-
Gwyddelig	-
Prydeinig	-
Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig	-
Mae'n well gen i beidio â dweud	-

Tarddiad Ethnig	
Gwyn	19
Grwpiau Aml-ethnig/Cymysg	-
Asiaidd	-
Du/Affricanaidd/Caribïaidd	-
Arall	-

Dibynyddion	
Dim	10
Plant dan 18	5
Plant dan 25 ac mewn addysg lawn amser	2
Unigolyn 60 oed neu hŷn	2
Mae'n well gen i beidio â dweud	-

Anabledd	Oes	Na / Amh	Dewis Peidio Dweud
Oes gennych anabledd, yn eich tyb chi?	-	18	-
Oes gennych anabledd fel y'i diffinnir gan y Ddeddf Cydraddoldeb?	-	17	2
Oes gan o leiaf un person sy'n ddibynnol arnoch anabledd?	3	15	-

Cymerwyd y data isod o gofnodion Adnoddau Dynol yn hytrach na thrwy'r arolwg staff blynyddol.

Beichiogrwydd a Mamolaeth	
Nifer gweithwyr beichiog yn ystod 2023/24	0
Nifer gweithwyr yn cymryd Absenoldeb Mamolaeth yn ystod 2023/24	0

2. Rhaid i gorff rhestredig yng Nghymru gasglu a chyhoeddi bob blwyddyn nifer y dynion a'r menywod a gyflogir, wedi'u didoli yn ôl y categorïau canlynol:

Swydd	Dyn	Menyw	Cyfan
Gweinyddwr	0	0	0
Swyddog Cymorth/Cynorthwyol a Swyddog	1	3	4
Swyddog	0	4	4
Pennaeth / Arweinydd	3	5	8
Cyfarwyddwyr / Prif Swyddog Gweithredol	0	2	2
Comisiynydd	0	1	1

Cyflog a Gradd	Dyn	Menyw	Cyfan
22,152 – 25,615 / A	0	0	0
26,894 – 29,640 / B	1	3	4
32,458 – 37,440 / C	0	4	4
41,704 – 47,840 / D	3	4	7
53,435 – 58,240 / E	0	1	1
59,800 – 65,570 / F	0	2	2
90,000* / Commissioner	0	1	1

*Pennwyd y Lefel Cyflog gan y Corff Adolygu Cyflogau Uwch

Math o Gontract	Dyn	Menyw	Cyfan
Parhaol	4	14	18
Tymor Penodol	0	1	1
Dros Dro	0	0	0

Patrwm Gweithio	Dyn	Menyw	Cyfanswm
Amser Llawn	4	12	16
Rhan Amser	0	3	3
Oriau Cywasgedig	0	0	0

Recriwtio

3. Rhaid i gorff rhestredig yng Nghymru gasglu a chyhoeddi bob blwyddyn nifer y bobl sydd wedi gwneud cais am swyddi gyda'r corff yn ystod y flwyddyn ddiwethaf

Mae'r Comisiynydd yn monitro ei phroses recriwtio drwy'r amser i sicrhau bod pob mesur yn cael ei gymryd i geisio cynyddu amrywiaeth ymysg ei staff.

Mae ffurflenni cais ar gael yn barod mewn fformatau gwahanol ac mae hysbysebion recriwtio yn cael eu lleoli'n eang gan ddefnyddio amrywiol gyfryngau. Mae gan y Comisiynydd Bolisi Urddas yn y Gwaith, ac mae hi'n mabwysiadu arferion da ar gyfer ei phroses recriwtio. Dim ond staff yr adran Adnoddau Dynol sy'n gweld yr holl wybodaeth am nodweddion gwarchodedig mewn ffurflenni cais, ac nid yw'r wybodaeth yn cael ei rhannu â'r panel dethol. Hefyd, mae addasiadau rhesymol ar gael i bob ymgeisydd sy'n gofyn amdanynt.

Fe wnaeth y Comisiynydd recriwtio'n allanol i bump swydd yn ystod 2023/24 (hysbysebwyd un rôl ddwywaith).

Mae'r tabl isod yn dangos nifer yr ymgeiswyr a wnaeth gais am bob swydd:

Swydd	Nifer yr ymgeiswyr
Cynorthwyydd Gweithredol	0
Uwch Gynorthwyydd Gweithredol	6
Arweinydd Hawliau a Chydraddoldeb	19
Uwch Swyddog Cyngor a Chymorth (rownd gyntaf)	13
Aelod o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg	8
Uwch Swyddog Cyngor a Chymorth (ail rownd)	14
Gweinyddwr Cymorth i'r Tîm	0

Mae pob ymgeisydd mewnol ac allanol yn cael y cyfle i lenwi ffurflen Monitro Amrywiaeth ar adeg gwneud cais. Ond nid yw pob ymgeisydd yn dewis llenwi'r ffurflen a'i chyflwyno. Derbyniodd y Comisiynydd 27 o ffurflenni Monitro Amrywiaeth a oedd yn gysylltiedig â'r broses recriwtio allanol a gynhaliwyd yn ystod 2023/24.

Nifer y ceisiadau a dderbyniwyd am swyddi gan y grwpiau gwarchodedig canlynol yn ystod cyfnod 2023/2024:

Oed	
16-24	0
25-34	6
35-44	9
45-54	7
55-64	3
65 a throsodd	1
Dewis Peidio Dweud	1

Rhyw	
Gwryw	8
Benyw	19
Dewis Peidio Dweud	0

Ai yr un hunaniaeth o ran rhywedd sydd gennych â'r rhywedd a ddynodwyd yn wreiddiol pan gawsoch eich geni?	
Ie	25
Na	1
Dewis Peidio Dweud	1

Cyfeiriadedd rhywiol	
Deurywiol	0
Hoyw / Lesbiad	0
Heterorywiol	25
Anrhywiol	0
Arall	0
Dewis Peidio Dweud	2

Statws Perthynas	
Priod	9
Wedi ysgaru	4
Partneriaeth Sifil	0
Sengl	4
Cyd-fyw	7
Wedi gwahanu	0
Gweddw	1
Prefer not to say	2

Crefydd neu Gred	
Dim crefydd na chred	13
Cristion (pob enwad)	11
Bwdydd	0
Hindw	0
Iddew	0
Mwslim	0
Sikh	0
Unrhyw grefydd neu gred arall	0
Dewis peidio dweud	3

Hunaniaeth Genedlaethol	
Cymreig	22
Albanaidd	1
Seisnig	0
Gogledd Iwerddon	0
Gwyddelig	0
Prydeinig	3
Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig	0
Arall	1
Mae'n well gen i beidio â dweud	0

Tarddiad Ethnig	
Gwyn	25
Grwpiau Aml-ethnig/ Cymysg	1
Asiaidd	1
Du/Affricanaidd/Caribïaidd	0
Arall	0

Anabledd	Oes	Na / Amh	Dewis Peidio Dweud
Oes gennych anabledd, yn eich tyb chi?	2	24	1
Oes gennych anabledd yn ôl diffiniad Deddf Gydraddoldeb 2010?	2	22	3

Dibynyddion	
Plant dan 18	11
Plant dan 25 mewn addysg amser llawn	4
Rhywun 60+ oed	2
Dibynyddion eraill	0
Dim	12
Dewis peidio dweud	1

Mae gan o leiaf un o'm dibynyddion anabledd	
Oes	1
Na	14
Dewis peidio dweud	1
Amherthnasol	11

Ni chasglwyd data ynglŷn â beichiogrwydd a mamolaeth yng nghyswllt gweithgaredd recriwtio am 2023/24.

4. Rhaid i gorff rhestredig yng Nghymru gasglu a chyhoeddi bob blwyddyn nifer y gweithwyr sydd wedi gwneud cais am newid swydd o fewn yr awdurdod, gan nodi faint fu'n llwyddiannus yn eu cais a faint na fu'n llwyddiannus.

Ni wnaeth unrhyw aelod staff gais am newid swydd o fewn y sefydliad.

Dysgu a Datblygu

5. Rhaid i gorff rhestredig yng Nghymru gasglu a chyhoeddi bob blwyddyn nifer y gweithwyr sydd wedi gwneud cais am hyfforddiant a faint fu'n llwyddiannus yn eu cais.

Fel y nodir ym Mholisi Dysgu a Datblygu'r Comisiynydd, mae'r Comisiynydd yn anelu at fod yn sefydliad dysgu a bydd yn meithrin y sgiliau a'r wybodaeth y bydd eu hangen ar staff i lwyddo yn eu swyddi. Mae'r polisi hwn felly yn cefnogi diwylliant o ddysgu a datblygu staff rhagorol ar bob lefel. Mae gweithwyr yn cael eu hannog i fanteisio ar gyfleoedd dysgu a datblygu sy'n berthnasol i'w swyddi a'u datblygiad personol.

Bydd y Comisiynydd yn:

- darparu amgylchedd gweithio heriol, lle anogir staff i ddatblygu a magu sgiliau newydd a phrofiad.
- darparu amrediad o gyfleon datblygu i staff a fydd yn gyson ag anghenion strategol a gweithredol y Comisiynydd.
- sicrhau y caiff pob aelod staff newydd ddealltwriaeth sylfaenol o rôl, swyddogaeth, polisïau a gweithdrefnau'r Comisiynydd wrth gael eu sefydlu yn eu swydd.
- asesu anghenion dysgu a datblygu'r Comisiynydd ac unigolion a llunio dadansoddiad anghenion hyfforddi a dysgu'r Comisiynydd.
- cynnal cynlluniau hyfforddi a datblygu unigol a chytuno arnynt gyda phob aelod staff fel rhan o'r broses gwerthuso perfformiad.
- adolygu cynlluniau unigolion a'r Comisiynydd o leiaf bob blwyddyn; asesu effeithiolrwydd ymyriadau hyfforddi a bwydo hynny'n ôl i gynlluniau wedyn.

Mae'r holl weithwyr yn cael cyfle cyfartal o ran hyfforddiant. Cymeradwyodd y Comisiynydd bob cais gan weithiwr am weithgarwch dysgu a datblygu (hyfforddiant) yn ystod 2023/24 (4).

6. Rhaid i gorff rhestredig yng Nghymru gasglu a chyhoeddi bob blwyddyn nifer y gweithwyr a gwblhaodd yr hyfforddiant.

Cwblhaodd pob un o'r 4 gweithiwr yr hyfforddiant, a gyflawnwyd naill ai fel hyfforddiant unigol neu fel hyfforddiant corfforaethol lle'r oedd pob gweithiwr yn mynychu.

Trefniadau Cwyno

7. Rhaid i gorff rhestredig yng Nghymru gasglu a chyhoeddi bob blwyddyn nifer y gweithwyr a fu'n ymwneud â threfn gwyno naill ai fel achwynwr neu fel rhywun y gwnaed cwyn yn ei erbyn.

Ni fu yr un o weithwyr y Comisiynydd yn ymwneud â threfniadau cwyno boed hynny fel achwynwr neu fel rhywun y gwnaed cwyn yn ei erbyn yn ystod 2023/24.

Trefniadau Disgyblu

8. Rhaid i gorff rhestredig yng Nghymru gasglu a chyhoeddi bob blwyddyn nifer y gweithwyr fu'n destun trefniadau disgyblu.

Ni fu yr un o weithwyr y Comisiynydd yn destun gweithdrefnau disgyblu yn ystod 2023/24.

Ymadawyr

9. Rhaid i gorff rhestredig yng Nghymru gasglu a chyhoeddi bob blwyddyn nifer y gweithwyr a adawodd gyflogaeth yr awdurdod.

Yn ystod 2023/24, ymadawodd pedwar aelod staff â'u swyddi ar sefydliad y Comisiynydd.

Gan fod pob data ar gydraddoldeb staff yn ddienw, does dim data penodol ar gael am nodweddion gwarchodedig y staff hyn. Ond mae'r Comisiynydd yn dal gwybodaeth am oed a rhyw i ddibenion adnoddau dynol ynglŷn a'r staff penodol hyn, a dyma'r wybodaeth:

Oed	
16-24	1
25-34	-
35-44	1
45-54	2
55-64	-
65 a Hŷn	-
Dewis Peidio Dweud	-

Rhyw	
Gwryw	1
Benyw	3